Page

# Dyfarnu £43miliwn i helpu cymunedau i rannu sgiliau a dysgu gyda'i gilydd

09/04/2025



Mae Scottish Canals wedi derbyn £3.7m i greu canolfan sgiliau newydd ar lannau Camlas Forth a Clyde yn Falkirk. Credit: Kirsty Anderson.

O arfordir Norfolk i gamlesi'r Alban, bydd ein swp diweddaraf o grantiau'n rhoi cyfleoedd i bobl brofi treftadaeth a chysylltu â gorffennol eu hardal.

Nid yw treftadaeth yn ymwneud â phethau a lleoedd yn unig, mae'n ymwneud â phobl. Y bobl sy'n gofalu am, yn rhannu ac yn defnyddio treftadaeth. Mae llawer o'r 16 o brosiectau yr ydym wedi'u hariannu'n ddiweddar yn ein chwe chyfarfod pwyllgor ym mis Mawrth - sef cyfanswm buddsoddiad o £43.4m - yn

ymwneud â rhoi hwb i sgiliau i ofalu am dreftadaeth a dod â chymunedau ynghyd i'w rhannu a'i defnyddio.

Bydd y gweithgareddau hyn hefyd yn helpu cryfhau cydnerthedd sefydliadau treftadaeth lleol ac ehangu cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad – egwyddorion allweddol ein Strategaeth Treftadaeth 2033.

Clywch gan ddetholiad o'r prosiectau llwyddiannus ar draws y DU am y gwahaniaeth y bydd ein hariannu'n ei wneud.

## Lock 16: canolfan ragoriaeth ar gyfer camlesi a sgiliau traddodiadol

Mae Scottish Canals wedi derbyn £3.7m i greu canolfan sgiliau newydd ar lannau Camlas Forth a Clyde yn Falkirk.



Lock 16: canolfan ragoriaeth ar gyfer camlesi a sgiliau traddodiadol. Credit: Scottish Canals.

Dywedodd y goruchwyliwr Billy King, a fu'n gweithio ar Union Canal am dros 26 mlynedd fel arbenigwr gwaith maen: "Dros y blynyddoedd rwyf wedi gwneud gwaith brys ar bontydd, lociau a siambrau hanesyddol. Mae diffyg gwirioneddol yn y sgiliau traddodiadol hyn nawr; dros y blynyddoedd, rwyf wedi gweld y dirywiad o lygad y ffynnon. Rwy'n obeithiol y bydd Lock 16 yn helpu adfywio llawer o'r sgiliau hyn. Byddwn yn annog unrhyw un sy'n ystyried hyfforddiant yn y sgiliau hyn i roi cynnig arni."

Mwy o wybodaeth am Lock 16.

## Saving the Iron Duke

Bydd ein grant o £2.4m yn helpu Great Yarmouth Preservation Trust i atgyfodi un o dafarndai mwyaf storïol y dref, gan gynnwys y gymuned yn yr ymgyrch.



The Iron Duke. Credit: Great Yarmouth Preservation Trust.

Dywedodd Darren Barker MBE o'r Ymddiriedolaeth: "Trwy gydol y gwaith adfer, bydd llu o ddigwyddiadau a gweithdai'n darparu cyfleoedd hyfforddi, gwirfoddoli ac ymgysylltu ar gyfer cannoedd o bobl. Bydd y rhain yn cynnwys crefftau traddodiadol, treftadaeth bwyd, ffotograffiaeth, tirfesur, ymchwil a chelf hanesyddol. Mae'r gwaith o adfer yr Iron Duke wedi cael cefnogaeth aruthrol gan y gymuned leol ac rydym mor ddiolchgar am yr holl gymorth."

Mwy o wybodaeth am yr Iron Duke.

## Adfer Neuadd Les Pendyrus (Tylorstown)

Bydd y neuadd lles glowyr olaf yn Rhondda Cynon Taf, a adeiladwyd ym 1933, yn parhau i wasanaethu ei chymuned diolch i'n grant o £4.7m



Bydd y neuadd lles glowyr olaf yn Rhondda Cynon Taf yn parhau i wasanaethu ei chymuned diolch i'n grant o £4.7m. Credit: Steve Pope / FotoWales.

Dywedodd rheolwr y prosiect, Rebecca Elizabeth Sullivan: “Mae’r Neuadd Les wedi’i hymwreiddio’n ddwfn yn nhreftadaeth ein cymuned, gan gynrychioli gwytnwch, undod a gobaith. Ein nod yw gwneud gwaith adnewyddu hanfodol a fydd nid yn unig yn adfer ei harddwch pensaernïol ond hefyd yn ehangu rôl y neuadd fel hyb i'r gymuned, gan gynnig gwasanaethau, gweithgareddau ac adnoddau hanfodol i bobl o bob oed a chefndir. Rydym am i bawb deimlo bod croeso iddyn nhw.”

Mwy o wybodaeth am Neuadd Les Pendyrus.

## Dod â phobl ynghyd ym Mharc Ashburton

Mae Parc Ashburton 100 oed yn Croydon wedi derbyn £1.6m i adfer cyfleusterau, creu Hyb Ieuenctid Oasis newydd a rhedeg prosiectau hanes lleol ac amgylcheddol gyda'r gymuned.



Mharc Ashburton. Credit: London Borough of Croydon.

Dywedodd Andy Gill, Arweinydd Ieuenctid ac Arloesi Oasis: “Mae’r buddsoddiad hwn yn dangos sut y gall gweithio gyda phobl leol sicrhau newid parhaol, gan wella cyfleoedd bywyd ein pobl ifanc ar adeg pan fydd angen cefnogaeth fwyaf.”

## Oes gennych chi syniad gwych am brosiect yn eich cymuned?

Archwiliwch y gwahaniaeth yr ydym am i'n hariannu ei wneud dros dreftadaeth a'r hyn y gallwn ei ariannu.



## rdeb hefyd mewn ...

The Iron Duke before restoration. Credit: Great Yarmouth Preservation Trust.



Left to right: stonemasons Jason Boag, Billy King and Ross Cowie, speaking to Caroline Clark, Director of Scotland at the National Lottery Heritage Fund. Credit: Kirsty Anderson.



**canals and traditional skills**

Saif Neuadd Les Pendyrus yng nghalon y gymuned leol. Credyd: Steve Pope / FotoWales

## Dechrau newydd i Neuadd Les Pendyrus (Tylorstown)